

Cyngor Cymuned Y Bontnewydd
COFNODION CYFARFOD MISOL
5 Hydref 2017 7.00 yh Y Ganolfan, Y Bontnewydd

PRESENNOL :

Cynghorwyr: Emyr Williams, Ifor Dylan Williams, Math Williams, Peter Garlick, Mirain Llwyd Owen

Cadeirio: Erddyn Davies

Clerc: Huw Llwyd Rowlands

1. YMDDIHEURIADAU

Dafydd Iwan, Gwyneth Thomas, Geraint Strello, Cadi Sion

2. DATGAN DIDDORDEB/BUDDIANT PERSONOL

Dim

3. CADARNHAU COFNODION Y CYFARFOD DIWETHAF

Cadarnhawyd cofnodion Medi 2017.

Cynnig: Ifor Williams

Eilio: Math Williams

4. MATERION YN CODI O'R COFNODION

4.1 Pwyllgor Y Ganolfan

Yn dilyn cyfarfod cyhoeddus fe benodwyd y canlynol yn swyddogion newydd Pwyllgor Y Ganolfan.

Cadeirydd: Y Cynghorydd Peter Garlick

Ysgrifiennydd: Catrin Roberts ac Amanda

Trysorydd: I'w benodi

Trafododd y Pwyllgor yr angen am wariant ar y Ganolfan. Ystyriwyd fod angen datrys y sefyllfa wresogi'n fuan, ac fe gytunwyd y byddai'r Pwyllgor yn gofyn am dri pris cyn adrodd yn ôl i'r Cyngor Cymuned, pe byddai angen gofyn am gyfraniad tuag at y gost.

Pwysleiswyd ei bod hi'n bwysig fod y math cywir o wresogydd yn cael ei brynu, fel ei fod yn medru cynhesu'r ganolfan yn ddigonol, ond eto ddim yn rhy ddrud i'w redeg.

Yn y tymor hir mae angen gwella cegin a thoiledau'r Ganolfan. Mae'n bosibl y bydd Hwyl y Bont yn medru gwneud cyfraniad, gan eu bod yn un o dri elusen fydd yn debygol o gael arian gan Tesco, tuag at ddefnydd y gymuned yn fuan.

4.2 Tacluso Llefydd Parcio Lôn Groes

Credir fod y llefydd parcio yn Lôn Groes wedi cael eu tacluso gan Gyngor Gwynedd, ond bydd y Clerc yn gwirio hyn.

4.3 Enwau Ffyrdd Llanfaglan

Danfonodd Y Clerc sylwadau'r Cynghorydd Ifor Williams a'i fap i'r O.S.. Maent yn ystyried y mater a gobeithir clywed ganddynt yn fuan.

4.4 Taliad i Gyngor Gwynedd am etholiad 2017 - £247

Eglurodd Cyngor Gwynedd eu bod wedi danfon llythyr i bob Cyngor Cymuned yn nodi y byddai yna gostau etholiadol. Fodd bynnag gallasid dehongli'r llythyr fel y byddai yna gostau etholiadol ddim ond pe cynhelid etholiad. Ni chynhaliwyd etholiad ym Montnewydd eleni.

Eglurodd Cyngor Gwynedd hefyd fod Cyngor Cymuned Y Bontnewydd wedi talu swm tebyg yn 2012 at gostau etholiadol.

Gofynnwyd i'r Clerc edrych ar hawl a phwerau cyfreithiol Cyngor Gwynedd i godi'r tâl.

4.5 Problemau Traffig Llanfaglan

Mae'r Clerc wedi ysgrfennu at Gyngor Gwynedd yn gofyn am osod cyflymder 30mya o Fryn Seiont hyd at Lanfaglan ac o Lanfaglan at Saron.

Yn ogsytal gofynnwyd i Gan Bwyll fonitro'r cyflymder yn Llanfaglan yn amlach. Deallir eu bod yn Llanfaglan o bryd i'w gilydd. Disgwylir ateb.

Bu i'r Cynghorydd Peter Garlick ymholi am hyfforddi aelodau o'r cyhoedd i ddefnyddio gwn cyflymder. Byddai'r cyhoedd yn medru monitro'r cyflymder yn lleol, a byddai unrhyw un sy'n gyrru dros y cyflymder yn cael llythyr rhybudd. Cyn bwrw mlaen â hyn bydd angen cael pwll o wirfoddolwyr, ac fe gytunwyd i geisio enwau gan drigolion Llanfaglan fyddai'n fodlon gwirfodddoli.

4.6 Ffordd Osgoi Bontnewydd

Gobeithir y bydd y gwaith ar y ffordd osgoi yn dechrau yng Ngwanwyn 2018.

Mae gwaith yn cael ei wneud ar wella Cae Gwynedd a brynwyd gan Lywodraeth Cymru, gyda'r bwriad o'i werthu yn y pendraw.

4.7 Diffibriliwr

Bu i'r Cyngorydd Peter Garlick wneud trefniadau i brynu'r ciosg ger Y Ganolfan ar ran y Cyngor Cymuned am £1.00 gan BT. Mae BT hefyd yn fodlon darparu cyflenwad trydan i'r ciosg am gyfnod o 7 mlynedd.

Bydd y Cyngorydd Peter Garlick yn gwneud gwaith ymchwil pellach parthed prynu a gosod y diffibriliwr. Bydd angen yswirio'r diffibriliwr hefyd.

5. MATERION ARIANNOL

5.1 Cyflog a Chostau Clerc Medi 2017

£208.18 - £41.60 treth incwm = £166.58 + costau swyddfa £45.00 y mis

Cyfanswm Gros £253.18 y mis

Cyfanswm Net £211.58 y mis

5.2 Costau postio £2.24

5.4 Taliad i Gyngor Gwynedd Costau Etholiad - £247

5.5 Balans yn y Banc 5 Hydref 2017- £20,293.09

5.6 Adnewyddu Yswiriant 2018/19 - £2,210.65 oedd pris gwreiddiol Zurich. Gofynnwyd i'r Clerc weld a fedrid gael pris mwy cystadleuol, a cafwyd pris o £1409.50 am gytundeb 3 blynedd. Cytunwyd i'w dalu.

6. CYNLLUNIO A MATERION CYFREITHIOL ERAILL

Dim

7. GOHEBIAETH

- Cylch Meithrin Bontnewydd – diolch am eu rhodd ariannol
- Hunaniaith

Derbyniwyd yr uchod i gyd er gwybodaeth.

8. MATERION ERAILL

8.1 Enwebu Llywodraethwyr Cymunedol

Mae angen i bob Cyngor Cymuned roi gwybod i Gyngor Gwynedd pwy sy'n eu cynrychioli ar fwrdd Llywodraethol eu hysgol gynradd lleol.

Mae angen hefyd i'r Llywodraethwr gwblhau ffurflen a'i dychwelyd i Gyngor Gwynedd.

Bydd y Cynghorydd Math Williams yn llenwi'r ffurflen fel enwebydd y Cyngor Cymuned ar Fwrdd Llywodraethwyr Ysgol Bontnewydd.

8.2 Adroddiad gan y Cynghordd Peter Garlick

- Bydd tri arwydd yn nodi presenoldeb cae chwarae Llwyn Beuno yn cael eu gosod yn fuan gan Gyngor Gwynedd.
- Bu cyfarfod gyda swyddogion Cyngor Gwynedd i drafod ceir yn parcio ar y palmant ger mynedfa Hen Felin. Mae Cyngor Gwynedd yn ystyried gosod bolardiau yno.
- Ceir gordyfiant ar ochr y palmant o gartref Bontnewydd i gyfeiriad Ffrwd Cae Du. Mae Cyngor Gwynedd yn gobeithio torri'r tyfiant yn fuan.
- Bydd meinciau newydd yn cael eu gosod ar y Foryd.
- 5 Tachwedd 2017– bydd Cadw Cymru'n Daclus a myfyrywyr lleol yn hel sbwriel ar hyd y Foryd.
- Bydd y gwaith metel uwchben yr afon ger hen Swyddfa Bost Bontnewydd yn cael ei ddiweddarau gan Gyngor Gwynedd yn fuan.

DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF

2 Tachwedd am 7 yh Y Ganolfan, Bontnewydd

